




Cefnogi'r Philipinas wrth brynu matiau bwrdd hardd – yn y capel ac yn ein cartrefi



Fel rhan o apêl Corwynt Cariad EBC flwyddyn nesaf rydym wedi archebu matiau arbennig i eglwysi eu defnyddio ar y bwrdd cymun fel symbol o bresenoldeb pobl y Philipinas gyda ni wrth i ni gymuno.

Mae'r matiau wedi cael eu cynhyrchu gan bobl o gymuned Baseco yn ardal porthladd Manila. Mae'n gymuned fawr ac yn ardal dlawd iawn gydag amodau byw gwael. Wrth gyfarfod â phobl y gymuned cawsom ychydig o hanes Georgie, llywydd y grŵp cymunedol sydd wedi bod yn cydweithio gyda Urban Poor Associates, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol.

'Clywais am waith UPA rhyw bymtheg mlynedd yn ôl' meddai Georgie, – 'roeddwn yn 31 oed ac yn gweithio, ond penderfynais fynychu cyfarfod i glywed am eu gwaith. Ar ôl cyrraedd adref dechreuais feddwl am ddyfodol y plant ac ystyried sut y gallwn i helpu. Felly penderfynais ymuno â'r grŵp cymunedol i weld beth allem wneud. Ers hynny mae UPA wedi ein helpu ni – o'r 13,000 teulu sydd yma mae gan 3,000 bellach dŷ o safon da, ond

rydym yn meddwl am yr 8,000 sy'n dal mewn cartrefi bregus. Mae UPA wedi rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i ni gydylynu efo'r llywodraeth. Rydym wedi dysgu am ein hawliau – roeddem yn arfer ildio i beth bynnag oedd y llywodraeth yn ddweud, ond rydym bellach yn gallu siarad efo nhw ar lefel gyfartal. Mae gennym erddi i dyfu bwyd, cyflenwad dŵr a thrydan ac mae tua 4000 o bobl wedi cael toiledau yn eu tai.

Gyda chymorth UPA mae'r gymuned wedi sefydlu'r busnes o gynhyrchu nwyddau, bagiau a matiau

'O ran y nwyddau', meddai Georgie, 'mae hwn yn brosiect cymunedol – mae'r aelodau yn gwneud y nwyddau ac mae'r arian yn dod yn ôl i'r gymuned. Rydym yn cael yr adnoddau am ddim gan ffatri, ond ni sy'n talu'r cludiant. Mae gwerthu'r nwyddau wedi ein helpu i ddechrau rhaglen addysg i blant dosbarth 3,4,5 a 6 ar benwythnosau. Mae 4 athro a 200 o blant yn dysgu Saesneg, mathemateg a darllen. Rydym hefyd wedi dechrau

rhaglen fwyd yn y dosbarthiadau – mae'r llywodraeth yn rhoi arian at hynny ar hyn o bryd, ond rydym yn gobeithio y bydd y gwerthiant nwyddau'n cynyddu er mwyn i ni fedru cynnal hynny ein hunain yn y tymor hir. Rhaid i'r plant gael bwyd – maent yn gysglyd ac yn methu canolbwyntio os ydynt yn llwglyd.'

Mae'r trefniant gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi bod yn gyfle i greu cysylltiad rhwng cymuned Baseco a'r mudiad Masnach Deg. Mae'r gymuned bellach wedi dod yn bartneriaid i CCAP, mudiad Masnach Deg y Philipinas ac mae hynny wedi rhoi mynediad i farchnad ehangach a sicrach iddynt.

Mae'r matiau ar werth am £15 yr un. Y cyntaf i'r felin amdani! Cysylltwch â'ch swyddfa Cymorth Cristnogol i sicrhau un i'ch eglwys. Byddant yn ddelfrydol i'w defnyddio yng ngwasanaeth Dydd Gweddï Byd Eang y Chwïorydd 2017 sydd wedi cael ei baratoi gan wragedd y Philipinas.

Catrin Roberts, Pontyberem

Dathlu 300 mlynedd geni William Williams yn 2017

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n awyddus i hyrwyddo digwyddiadau yn ystod y flwyddyn hon i ddathlu tri chan mlyneddiant geni William Williams, Pantycelyn, un o'n hemynwyr mwyaf. Cafodd digwyddiadau eu trefnu eisoes yn Nhrefeca (Mehefin 17), yn ystod y Gymanfa Gyffredinol yng Nghaerdydd (Gorffennaf 2-5) ac ar benwythnos llawn yn Llanymddyfri (Gorffennaf 14-16). Nodwch y dyddiadau yn eich dyddiadur os gwelwch yn dda. Cafodd drama ei gomisiynu'n arbennig ar gyfer yr

achlysur, a chynhelir Cymanfa Ganu, Darlith Hanes a theithiau tywys.

Yr ydym yn ymwybodol hefyd efallai bod eich eglwys neu eich henaduriaeth yn bwriadu cynnal digwyddiadau arbennig. Byddwn wrth ein boddau i glywed gennych er mwyn i ni fedru eu cynnwys mewn cyhoeddusrwydd fydd yn cael ei baratoi gennym ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Gallwch ddanfôn gwybodaeth naill at yr Ysgrifennydd Cyffredinol neu ataf fi, Parch Jenny Garrard (j.garrard@pc-q.net). Gallwch

hefyd gael eich ychwanegu at restr e-bost fydd yn cynnwys manylion llawnach am y digwyddiadau trwy fy e-bostio ar yr un cyfeiriad.

Y mae dylanwad William Williams yn ymestyn y tu hwnt i'n heglwys gan fod ei emynau'n cael eu canu yn ein cymunedau ar lawer i achlysur cyhoeddus. Y mae hyn yn cynnig cyfle arbennig i ni fedru rhannu'r ffydd a'i hysbrydolodd ef gyda chynulleidfa ehangach o bobl.

Jenny Garrard